**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu**
**Cofnodion**
**04.10.16**

**Aelodau Cynulliad yn bresennol:**
Joyce Watson AC
Dai Lloyd AC
Mark Isherwood AC

**Yn bresennol**
Nitesh Patel – Swyddfa Joyce Watson AC
Mark Bodger - CITB Cymru
Donna Griffiths - CITB Cymru
Joshua Miles - CITB Cymru
Ed Evans – CECA Cymru
Gareth Davies, Knox and Wells
Ken Pearson – Grŵp Hyfforddiant Dyfed
Huw Williams – Cyngor Gwynedd
Karen Higgins – Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru
Nick Blundell - UCATT
Joshua Bell – Swyddfa Hannah Blythyn AC
Mark Whusthoff – Bouygues UK
Robert Williams – WRW

**Cofnodion**

Agorodd Joyce Watson AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, y cyfarfod a chyflwynodd yr heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Enwebwyd Joyce yn Gadeirydd y grŵp gan Dai Lloyd AC ac eiliwyd hyn. Cadarnhawyd fod Joyce Watson AC wedi ei hailethol yn Gadeirydd y Grŵp.

Cadarnhawyd mai CITB Cymru fyddai Ysgrifenyddiaeth y Grŵp.

Rhoddodd Mark Bodger gyflwyniad ar dueddiadau yn y dyfodol o ran cyflogaeth a thwf yn y sector adeiladu.

Nododd y canlynol:
- Maint cwmnïau adeiladu
- Adolygiad Cymwysterau Cymru
- Demograffeg cyflogaeth yn y maes adeiladu
- Y ffigurau twf mewn cynnyrch arfaethedig ar gyfer Cymru
- Prosiectau mawr posibl
- Y gofynion allweddol o ran cyflogaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf
- Tynnodd sylw at y materion allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu
- Tynnodd sylw at gyd-destun ehangach y polisi

Nododd Joyce Watson AC arbenigedd a dealltwriaeth y rhai o amgylch yr ystafell a dywedodd fod angen i’r grŵp ddefnyddio’r rhain i ddylanwadu ar bolisi.

DRAFT

Gofynnodd Gareth Davies gwestiwn am y cynnydd sydyn yn y grŵp oedran 25-34 o ran proffil cyflogaeth y diwydiant adeiladu yng Nghymru.  Tynnwyd sylw at rôl a swyddogaeth Gyrfa Cymru yn hyn o beth.

Nododd Karen Higgins y diffyg gwybodaeth, cyngor ac arweiniad da i bobl ifanc o ganlyniad i doriadau i Gyrfa Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Teimlai fod ymgysylltiad gwell â diwydiant mewn ysgolion yn allweddol i hyn.

Nododd Gareth Davies Go Construct fel adnodd i helpu gyda hyn.

Tynnodd Ken Pearson sylw at y ffaith nad yw llwybrau mynediad 16-24 yn cael cynrychiolaeth ddigonol. Roedd angen ennyn diddordeb pobl ifanc o 14 oed ymlaen. Awgrymodd y gallai fod angen prentisiaethau gradd?

Nododd Robert Williams bwysigrwydd yr ardoll prentisiaeth a dywedodd ei fod yn siomedig yn ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r ardoll prentisiaeth. Teimlai y gallai hyn achosi anfantais i gwmnïau o Gymru. Nododd hefyd bwysigrwydd cyllid yr UE i brentisiaethau a sut y byddai hyn yn effeithio ar eu dyheadau i ymestyn. Holodd ynglŷn â phrentisiaethau pa sectorau fydd yn cael eu cynnwys yn bennaf.

Gofynnodd Nick Blundell am i gopi o'r cyflwyniad gael ei ddosbarthu i holl aelodau’r grŵp. Galwodd am i arian gael ei neilltuo ar gyfer adeiladu a sgiliau yn fwy cyffredinol. Nododd hefyd fod yr oedi mewn prosiectau yn y sector cyhoeddus yn cael effaith fawr ar ffawd economaidd.

Nododd Karen Higgins fod RLPs i gyd wedi cael cynnydd mewn cyllid adeiladu ar gyfer sgiliau a hyfforddiant yn ôl yr argymhellion. Nododd fod disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir.

Dywedodd Robert Williams drachefn na chynhaliwyd ymgynghoriad â diwydiant ar yr ardoll prentisiaeth, o'i gymharu â’r Alban, a bod hyn yn gamgymeriad sylfaenol. Nododd y byddai Llywodraeth y DU yn rhyddhau’r wybodaeth hon ddiwedd mis Hydref.

Ymatebodd Joyce Watson AC ac awgrymodd y dylai'r grŵp weithredu yn dilyn hyn.

Nododd Gareth Davies fod effaith yr ardoll prentisiaeth ar yr ardoll CITB hefyd yn allweddol yn y ddadl hon. Nododd hefyd allforio sgiliau adeiladu a mewnforio cyfoeth o ganlyniad i gwmnïau adeiladu yn cael gwaith y tu allan i Gymru.

Hefyd, nododd Robert Williams wendid y paneli sector, gan eu galw’n 'siopau siarad'.

**CAM GWEITHREDU** Awgrymodd Mark Isherwood AC fod Cadeirydd y Grŵp yn ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am gyfarwyddyd ar y materion hyn, gan adlewyrchu natur frys y sefyllfa.

**CAM GWEITHREDU** Credai hefyd ei bod yn werth ysgrifennu at Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i awgrymu bod y Pwyllgor yn ystyried y mater hwn.

**CAM GWEITHREDU** Awgrymodd Joyce Watson AC ein bod yn gwahodd y Gweinidog i’r cyfarfod nesaf os yw hynny’n bosibl.

Cytunodd Ed Evans â'r dull hwn o weithredu mewn perthynas â’r ardoll a dywedodd fod angen mynd i’r afael â’r mater er mwyn osgoi storm berffaith.

DRAFT

Dywedodd Robert Williams fod angen i'r llythyr alw am gyfeiriad ar y mater hwn, gan ganolbwyntio ar 'gynigion pendant'.

Nododd Joyce Watson AC fod cynllunio hefyd yn fater allweddol y gallai'r grŵp ei ystyried yn y dyfodol.

Nododd hefyd ganfyddiad pobl ifanc mewn perthynas ag adeiladu. Gofynnodd a ellid cynnal arolwg ar y mater hwn.

Nododd Robert Williams waith CITB yn y maes hwn yn ymwneud â GO Construct. Tynnodd sylw at enghreifftiau a oedd ganddo o gynlluniau prentisiaeth a rennir, lle'r oedd myfyrwyr uchelgeisiol yn dod i'r amlwg; gan herio'r syniad mai dim ond y rhai sy'n methu sy'n mynd i'r diwydiant.

Nododd Robert Williams fod y trefniadau cynllunio yn ychwanegu costau yng Nghymru o'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr.

Dywedodd Mark Whustoff fod cysylltiad agos rhwng yr agenda sgiliau â'r agenda economaidd ac na ddylid cael seilos. Awgrymodd hefyd fod angen inni ddysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn sectorau eraill yn y cyfnod 16-24 oed. Awgrymodd fod angen i Go Construct ganolbwyntio ar rieni yn fwy nag athrawon.

Awgrymodd Karen Higgins y gellid defnyddio'r metro neu brosiectau seilwaith eraill i dynnu sylw at gyfleoedd gwaith yn y sector adeiladu.

Nododd Helen Kane fod gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Gyfarwyddwr newydd. Tynnodd sylw at yr angen am syrfewyr os bydd prosiectau fel yr Wylfa Newydd yn mynd rhagddynt. Nododd hefyd y problemau enfawr yn ymwneud ag amrywiaeth sy'n bodoli yn y diwydiant adeiladu.

Nododd Nitesh Patel y Grŵp Menywod mewn Eiddo a oedd wedi cyfarfod yn flanorol ar y mater hwn, ac roedd yn bryder ers tro. Nododd hefyd yr angen am waith i ymdrin â chanfyddiadau a gwaith marchnata yn ymwneud â phrentisiaethau.

Nododd Helen Kane fod gan HS2 50 y cant o fenywod ar y prosiect. Roedd gan Crossrail 30 y cant tra bod prosiectau yng Nghymru yn cael trafferth cael 1 y cant.

Awgrymodd Mark Whustoff y gallech wneud unrhyw beth yn y diwydiant adeiladu, ac nad oedd yn gyfyngedig i grefftau.

Nododd Robert Williams fod y sector yn ehangach o lawer na chrefftau Beiblaidd. Nododd hefyd fod pethau fel dronau bellach yn cael eu defnyddio. Yn hyn o beth, roedd angen i'r diwydiant edrych i'r dyfodol.

**CAM GWEITHREDU** Gwaith i'w gyflawni yn ymwneud â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol ar gyfer eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Nodwyd fod deddfwriaeth yn ymwneud â chaffael hefyd yn broblem. Dylai'r grŵp hwn gadw golwg ar y mater penodol hwn.

Cododd Joshua Miles sylw ynghylch Unrhyw Fusnes Arall gan gwmni adeiladu yng ngogledd Cymru yn ymwneud ag ymgysylltu â'r grŵp yno.

DRAFT

Awgrymodd Joyce Watson AC y gallai hyn ddigwydd ar ddydd Gwener ond y nifer a fyddai'n bresennol fyddai'r mater allweddol. Awgrymodd hefyd y gellid defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda yn hyn o beth. Byddai'r Cadeirydd yn ymchwilio i hyn ymhellach.

DRAFT